

Ystum Taf: Ysgol Gynradd Gabalfa ac Ysgol Glan Ceubal

Adroddiad Ymgynghori

Rhif Project: CO17000

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 31/08/2017 a 15/09/2017.

Diben yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol petai hynny'n bosibl.

O'r 43 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 4 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd un ymateb dros y ffôn yn unig.

Crynoir y pryderon a'r sylwadau mewn *ysgrifen italig*, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Yng ngoleuni'r isod cynigir parhau gyda'r gwaith o roi'r cynllun ar waith fel y nodir yn y cynllun ymgynghori.

Mater – Disodli Mannau Parcio a Mynediad at Dramwyfeydd

Roedd y preswlydd yn bryderus y câi ei dramwyfa'n cael ei rhwystro gan rieni'n parcio'n agos at yr ysgol, ac y byddai'r marciau ffordd igam-ogam yn lleihau nifer y manau parcio sydd ar gael.

Ymateb

Priffyrdd cyhoeddus yw'r ffyrdd ac felly mae gan aelodau'r cyhoedd hawliau cyfartal yn unol â'r gyfraith i ddefnyddio'r ffyrdd, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau presennol. Nid oes gan breswylwyr hawliau mwy i ddefnyddio'r ffordd y maent yn byw ynddi nag unrhyw berson arall.

Mae'r marciau ffordd igam-ogam sy'n gysylltiedig â'r groesfan sebra yn ymestyn am ddim mwy na tua 16 metr ar ddwy ochr lleoliad y groesfan, ac felly, ni chaiff llawer o fannau parcio eu disodli.



Mae Cyngor Caerdydd yn ymwybodol o'r galw am fannau parcio ac rydym yn cymryd camau i sicrhau bod y mwyaf bosibl o le ar gael yn y mathau hyn o gynlluniau. Fodd bynnag, ystyrir bod diogelwch cerddwyr a hwyluso cerdded cyfleus a diogel, yn enwedig i ac o ysgolion, yn bwysig iawn. Yn unol â pholisïau a strategaeth y Cyngor, mae hyn yn bwysicach na manau parcio. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried y farn hon ac yn gweld beth y gallwn ei wneud yn ystod y broses ddylunio fanwl i wella nifer y manau parcio sydd ar gael.

Mae rhwystro tramwyfeydd a pheidio â chydymffurfio â chyfyngiadau parcio yn fater y gall swyddogion Gorfodi Parcio Sifil y Cyngor ymdrin ag ef. Maent ar gael ar 029

2087 2088 bob diwrnod yr wythnos rhwng 07:00 a 22:00. Dylid adrodd digwyddiadau unigol yn uniongyrchol wrthynt.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui i weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun.

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown.

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy.